# Busnesau Lleol yn Hapus i Siarad Cymraeg!

Fel rhan o ddathliadau Diwrnod Shwmae Su'mae 2024, mae swyddogion Menter Bro Morgannwg wedi bod yn ymweld â busnesau lleol er mwyn eu hannog i ymuno â chynllun 'Hapus i Siarad'.

Mae'r ymgyrch, sy'n bartneriaeth rhwng Mentrau Iaith a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn cynnig cymorth ac adnoddau i siopau a busnesau bach lle mae aelod o staff yn siarad Cymraeg. Wedi cynllun peilot llwyddiannus yn siroedd Rhondda Cynon Taf, Ceredigion a Fflint a Wrecsam yn gynharach eleni, mae busnesau trwy Gymru gyfan bellach yn cael cyfle i ymuno â'r cynllun ac arddangos poster sy'n dangos eu bod yn 'hapus i siarad' Cymraeg â'u cwsmeriaid. Mae'r pecyn adnoddau hefyd yn cynnwys bathodynnau a syniadau am sut i annog pobl, yn enwedig dysgwyr, i siarad Cymraeg a magu hyder.

Mae dysgwyr, sy'n dilyn cyrsiau gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, wedi derbyn cardiau er mwyn casglu stampiau wrth sgwrsio yn Gymraeg gyda staff. Bydd y rhai sy'n llenwi'r cerdyn a'i ddychwelyd at eu tiwtoriaid cyn diwedd mis Mawrth 2025 yn cael cyfle i ennill penwythnos preswyl i ymarfer neu wella eu Cymraeg.

Mae croeso i berchnogion busnes gysylltu â'u Menter Iaith leol neu Fentrau Iaith Cymru i ymuno â'r cynllun.

Mae'r busnesau yma ym Mro Morgannwg yn 'Hapus i Siarad':

Paletta Pizza, High Street, Y Barri

Crafted Arts Jewellery, Y Barri

Miss Holmes, Y Barri

Front Room (Pizza), Y Barri

Stwff / Stuff, Y Bontfaen

Foxy's Deli, Penarth

Arth (Stiwdio Chwys a Chryfder), Penarth

Ydych chi'n gwybod am fwy? Cysylltwch â michael@menterbromorgannwg.cymru